

Adroddiad monitro (Gorffennaf - Medi 2021): Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru

Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol | 24 Ionawr 2022
Equality and Social Justice Committee | 24 January 2022

Cynnwys

Cyflwyniad	2
1. Cefndir	3
2. Ystadegau chwarterol diweddaraf: trosolwg	3
Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 30 Medi	3
Ceisiadau a gafodd benderfyniad.....	3
Ceisiadau hwyr.....	3
Canlyniadau llwyddiannus.....	4
3. Deilliannau: 'sefydlog' neu 'cyn sefydlu'?	5
4. Dinasyddion 'cyn sefydlu': ail gais i aros	5
4.1. Trosi statws 'preswilydd cyn sefydlu' yn statws 'preswilydd sefydlog'	7
5. Pwy sydd wedi gwneud cais o Gymru?	7
6. Ceisiadau hwyr	8
7. Dim cais	9
8. Cyngor a chymorth am ddim gan Lywodraeth Cymru	9
9. Gweithgarwch y Pwyllgor: y wybodaeth ddiweddaraf	9
Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.....	10
Codi ymwybyddiaeth	10
Cwasanaethau cyngor a chymorth am ddim	11
Nodi bylchau yn y gwasanaeth	11

Cyflwyniad

Y Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yw cynllun Llywodraeth y DU y mae'n rhaid i ddinasyddion Ewrop wneud cais iddo er mwyn aros yn y DU ar ôl Brexit.

Mae hawliau dinasyddion yn ffurfio rhannau allweddol o gytundebau y daethpwyd iddynt rhwng y DU, yr UE a gwledydd Ewropeaidd eraill fel rhan o Brexit. Mae hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU yn cael eu gwarantu gan gytundebau gyda'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir.

Rhaid i Lywodraeth Cymru gadw at y cytundebau hyn ac mae Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am weithgareddau sy'n ymwneud â'r Cynllun yng Nghymru.

Caiff data ar y ceisiadau i'r Cynllun eu cofnodi gan Lywodraeth y DU. Cyhoeddir ystadegau lefel uchel yn fisol a chyhoeddir ystadegau manwl, gan gynnwys data lefel Cymru, bob chwarter.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau ar gyfer y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, yn union ar ôl dyddiad cau ceisiadau'r Cynllun ar 30 Mehefin 2021.

Darperir adroddiadau chwarterol i'r Pwyllgor i lywio ei waith monitro ar y mater hwn.

1. Cefndir

Yn dilyn ymadawriad y DU â'r UE, rhaid i ddinasyddion Ewrop a oedd yn byw yng Nghymru cyn 31 Rhagfyr 2020 fod wedi gwneud cais i aros erbyn 30 Mehefin 2021.

Mae hyn yn berthnasol i ddinasyddion Aelod-wladwriaethau'r UE, Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a'r Swistir ond nid dinasyddion Iwerddon, sydd wedi'u heithrio o dan drefniadau ar wahân. Nid yw nifer y dinasyddion o'r gwledydd hyn sy'n byw yn y DU yn hysbys, sy'n golygu nad oes neb yn gwybod faint o geisiadau ddylai fod.

Ers iddo gael ei lansio, mae dros 6.3 miliwn o geisiadau wedi cael eu cyflwyno i'r Cynllun ar gyfer Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yn y DU. Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws naill ai 'preswyllydd sefydlog' neu 'breswyllydd cyn sefydlu'. Am gefndir, gweler erthygl flaenorol Ymchwil y Senedd ar y mater hwn.

2. Ystadegau chwarterol diweddaraf: trosolwg

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r cyfnod chwarterol yn union ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau, sef 30 Mehefin 2021 - rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi 2021.

Bydd yr ystadegau chwarterol nesaf ar gael ym mis Chwefror 2022.

Ceisiadau a ddaeth i law erbyn 30 Medi

Hyd at 30 Medi, roedd 102,170 o geisiadau o Gymru o gymharu â'r 95,000 amcangyfrifedig o ddinasyddion cymwys yr oedd angen iddynt wneud cais. Daeth 17,660 o geisiadau i law ar gyfer rhai dan 18 oed.

Ceisiadau a gafodd benderfyniad

Cafodd 96,620 o geisiadau benderfyniad a chyfeirir atynt fel 'ceisiadau wedi'u cwblhau'.

Ceisiadau hwyr

Mae'r Cynllun yn parhau ar agor i dderbyn ceisiadau hwyr, a ganiateir os oes gan unigolyn sail resymol dros fethu'r dyddiad cau. Mae enghreifftiau'n cynnwys pan

fo rhiant wedi methu â gwneud cais ar ran plentyn neu pan fo gan unigolyn gyflwr meddygol difrifol.

Daeth 2,340 o geisiadau hwyr o Gymru i law rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi.



Canlyniadau llwyddiannus

Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn cael statws naill ai 'preswlydd sefydlog' neu 'breswlydd cyn sefydlu', a drafodir yn fanylach isod.

Ers i'r Cynllun agor, mae 57.2 y cant o ymgeiswyr wedi cael statws 'preswlydd sefydlog' hyd at 30 Medi ac mae 37.5 y cant wedi cael statws 'preswlydd cyn sefydlu'.

Mae ffeithlun Ymchwil y Senedd isod yn dangos canran a nifer y ceisiadau o Gymru. Mae'n dangos a ddaethant i law cyn/ar ôl y dyddiad cau, a gawsant benderfyniad ai peidio a chanlyniad ceisiadau gan ddinasyddion Ewrop yng Nghymru hyd yma.

Ceisiadau i'r Cynllun o Gymru yn ôl dyddiad, ceisiadau a gwblhawyd a chanlyniadau yn ôl canran a nifer:



3. Deilliannau: 'sefydlog' neu 'cyn sefydlu'?

Hyd at 30 Medi, cafodd 57.2 y cant o'r ceisiadau a gwblhawyd o Gymru (55,220 o geisiadau) statws 'preswlydd sefydlog'. I gael statws 'preswlydd sefydlog', rhaid bod ymgeisydd wedi byw yn y DU am bum mlynedd heb absenoldeb o fwy na chwe mis, gyda rhai eithriadau. Mae dinasyddion sy'n cael statws sefydlog yn colli eu statws os ydynt yn treulio mwy na phum mlynedd yn olynol y tu allan i'r DU.

Cafodd 37.5 y cant o'r ceisiadau a gwblhawyd o Gymru (36,200 o geisiadau) statws 'preswlydd cyn sefydlu'. Rhoddir statws 'preswlydd cyn sefydlu' i ddinasyddion Ewrop sydd wedi byw yn y DU am lai na phum mlynedd, ond a gyrhaeddodd y DU cyn 31 Rhagfyr 2020. Mae dinasyddion sy'n cael statws 'cyn sefydlu' yn colli eu statws os ydynt yn treulio mwy na dwy flynedd yn olynol y tu allan i'r DU.

Gall dinasyddion sy'n 'breswylwyr sefydlog' a'r rheini sy'n 'breswylwyr cyn sefydlu' fel ei gilydd weithio yn y DU, a gallant gael gafael ar ofal iechyd, addysg ac arian cyhoeddus. At hynny, gallant deithio i mewn ac allan o'r DU a gwneud cais am ddinasyddiaeth. Fodd bynnag, ni all dinasyddion 'cyn sefydlu' ddod ag aelodau o'r teulu i ymuno â hwy.

Adroddir ar geisiadau aflwyddiannus hefyd. O Gymru, cafodd 2.2 y cant eu gwrthod (2,110 o geisiadau a gwblhawyd), cafodd 1.6 y cant eu tynnu yn ôl neu roeddent yn amhendant (1,530 o geisiadau a gwblhawyd), ac roedd 1.6 y cant yn annilys (1,560 o geisiadau a gwblhawyd).

4. Dinasyddion 'cyn sefydlu': ail gais i aros

Daw statws 'preswlydd cyn sefydlu' i ben ar ôl pum mlynedd, a rhaid ei drosi i statws 'preswlydd sefydlog' drwy wneud ail gais.


Mae hyn yn golygu y bydd angen i'r 36,200 o ddinasyddion a gafodd statws 'preswlydd cyn sefydlu' ac sydd am aros yng Nghymru y tu hwnt i'r terfyn amser wneud cais eto.

Mae methu ag ailymgeisio yn arwain at golli hawl person i weithio, cael mynediad at dai, addysg a budd-daliadau yn awtomatig, a gallent fod yn agored i gael eu symud o'r DU.

Cred y corff sy'n gyfrifol am fonitro hawliau dinasyddion Ewrop yn y DU, yr Awdurdod Monitro Annibynnol, fod y golled awtomatig hon o hawliau yn anghyfreithlon oherwydd ei fod yn torri cytundebau'r DU gyda'r UE a gwledydd

eraill Ewrop. Mae'r Awdurdod Monitro Annibynnol wedi cychwyn achos adolygiad barnwrol yn erbyn Llywodraeth y DU i herio hyn.

Mae'r map isod yn dangos nifer y dinasyddion â statws 'cyn sefydlu' ym mhob ardal awdurdod lleol:



4.1. Trosi statws 'preswlydd cyn sefydlu' yn statws 'preswlydd sefydlog'

Mae nifer y rhai sy'n gwneud cais i drosi eu statws o statws 'preswlydd cyn sefydlu' i statws 'preswlydd sefydlog' wedi'i nodi mewn ystadegau ar geisiadau ailadroddus.

Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod y mwyafrif o geisiadau ailadroddus yn geisiadau i drosi statws. Fodd bynnag, ni ddarperir yr union nifer ac ni ddarperir gwybodaeth fesul gwlad y DU. Yn gyfan gwbl roedd 45,700 o geisiadau ailadroddus o bob rhan o'r DU.

Mae hyn yn golygu nad ydym yn gwybod faint o geisiadau sydd wedi dod i law gan ddinasyddion 'cyn sefydlu' yng Nghymru sy'n ceisio trosi eu statws.

5. Pwy sydd wedi gwneud cais o Gymru?

Mae'r ystadegau'n cynnig cipolwg o bwy sydd wedi gwneud cais i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Mae edrych ar y ceisiadau yn ôl oedran yn dangos, o'r 102,170 o geisiadau o Gymru:

- Daeth 81,310 o geisiadau gan bobl 18-64 oed (cwblhawyd 78,090 ohonynt);
- Ar gyfer y rhai dan 18 oed, roedd 17,660 o geisiadau (cwblhawyd 15,550 ohonynt); ac
- Roedd 3,190 o geisiadau gan bobl 65+ oed (cwblhawyd 2,980 ohonynt).

Dangosir nifer y ceisiadau a oedd wedi cael penderfyniad erbyn y dyddiad cau ('ceisiadau a gwblhawyd') mewn cromfachau.

Mae edrych ar y ceisiadau yn ôl cenedligrwydd yn dangos bod gwladolion Gwlad Pwyl a Rwmania yn gyson ymhlith yr uchaf o ran nifer y ceisiadau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Ar gyfer Cymru:


- Cafwyd 30,960 o geisiadau gan ddinasyddion Gwlad Pwyl; a
- Chafwyd 15,420 o geisiadau gan wladolion Rwmania.

6. Ceisiadau hwyr

Roedd ceisiadau yn parhau i ddod i law ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ac adroddir ar y rhain am y tro cyntaf.

Daeth **2,340 o geisiadau** i law o Gymru rhwng 1 Gorffennaf a 30 Medi. Ym mis Gorffennaf, daeth 850 o geisiadau hwyr i law o Gymru, gyda 670 ym mis Awst ac 820 ym mis Medi.

Mae'r rhain yn nodi'r nifer misol isaf o geisiadau a ddaeth i law ers i'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE agor ym mis Mawrth 2019, fel y dangosir isod:



Mae Llywodraeth y DU yn cynghori y bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar gyfer y rhai sydd â sail resymol am gollu'r dyddiad cau, er enghraifft rhiant sydd wedi methu â gwneud cais ar ran plentyn neu rywun sydd â chyflwr meddygol difrifol.

Mae pryderon wedi'u mynegi bod y rhai a fethodd y dyddiad cau yn dod yn awtomatig i breswyllo'n anghyfreithlon yn y DU ar 1 Gorffennaf 2021. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi addo diogelu hawliau'r rhai sydd â sail resymol dros fethu'r dyddiad cau.

7. Dim cais

Os nad yw unigolyn wedi gwneud cais i'r Cynllun a'i fod yn dod i gysylltiad ag awdurdodau'r DU, bydd yn cael 28 diwrnod o rybudd i wneud cais.

Dywed Llywodraeth y DU na fydd pobl nad ydynt wedi gwneud cais ar ôl y cyfnod rhybudd o 28 diwrnod yn gymwys i gael gwaith, budd-daliadau na gwasanaethau ac ni fyddant yn pasio gwiriadau tenantiaeth.

Efallai y byddant yn atebol am gamau gorfodi, er bod Llywodraeth y DU yn pwysleisio na fydd alltudio yn digwydd yn awtomatig.

Mae cyflogwyr a landlordiaid hefyd angen hysbysu'r Swyddfa Gartref o bobl nad ydynt wedi gwneud cais.

8. Cyngor a chymorth am ddim gan Lywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu gwasanaethau cymorth a chyngor am ddim ar gyfer dinasyddion Ewrop a oedd am barhau i fyw yng Nghymru ar ôl Brexit.

Roedd disgwyl y byddai'r gwasanaethau yn dod i ben ddiwedd 2021, fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ym mis Hydref y byddent yn cael eu hystyngyn tan o leiaf fis Mawrth 2022.

9. Gweithgarwch y Pwyllgor: y wybodaeth ddiweddaraf

Ar ôl i'r Pwyllgor ystyried ei adroddiad monitro cyntaf ym mis Hydref, cytunodd yr Aelodau i:

- gyhoeddi adroddiadau monitro rheolaidd ar hawliau dinasyddion Ewrop yng Nghymru, sydd ar gael ar wefan y Senedd;
- rhannu ei adroddiadau gyda'r Awdurdod Monitro Annibynnol; a
- gofyn am asesiad diweddaraf Llywodraeth Cymru o'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE yng Nghymru, yn enwedig o ran sut y bydd, yn y dyfodol, yn cynorthwyo'r rhai sy'n gwneud cais hwyr a dinasyddion sydd â statws 'preswyllydd cyn sefydlu'.

Mewn ymateb, mae'r [Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol](#) wedi darparu rhagor o fanylion am weithgareddau Llywodraeth Cymru, fel a ganlyn:

Grŵp Cydgysylltu'r Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

Cadarnhaodd y Gweinidog fod ei Grŵp Cydgysylltu, a gadeirir gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys sawl partner allanol sy'n cefnogi dinasyddion i wneud cais i'r Cynllun.

Mae'r partneriaid allanol canlynol yn mynychu:

Newfields Law, Fforwm Cymdeithas Sifil Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Migrant Help, Mind Casnewydd, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, TGP Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Settled, TUC Cymru, y Gymdeithas Frenhinol Pobl Fyddar a'r Prosiect Cyfraith Gyhoeddus.

Mae'r Grŵp yn cyfarfod bob deufis, lle mae rhanddeiliaid yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith y maent wedi'i wneud hyd yma a'r gwaith y maent wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 22 Ionawr 2022. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cynnig rhannu cofnodion cyfarfodydd y dyfodol gyda'r Pwyllgor. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor o'r canlyniad ar ôl y cyfarfod.

Codi ymwybyddiaeth

Disgrifiodd y Gweinidog weithgareddau codi ymwybyddiaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu wedi'i dargedu mewn lleoliadau gofal iechyd, megis canolfannau brechu a phractisau cyffredinol lleol mewn nifer o ieithoedd Ewropeaidd.

Mae ymgyrch ddigidol wedi'i chynllunio ar gyfer y misoedd nesaf, i ganolbwyntio ar negeseuon ynghylch:

- ceisiadau hwyr;
- ceisiadau ar gyfer plant ac aelodau eraill o'r teulu sy'n derbyn gofal;
- ceisiadau i ymuno ag aelodau o'r teulu ac;
- annog dinasyddion yr UE i ddiweddarau eu statws digidol ar-lein.

Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi ysgrifennu at gyd-Aelodau yn y Cabinet yn gofyn am eu cefnogaeth barhaus ar gyfer y gwaith hwn.

Cwasanaethau cyngor a chymorth am ddim

Eglurodd y Gweinidog sut y bydd yn gwneud defnydd o'i gwasanaethau cymorth a chyngor am ddim a gafodd eu hymestyn yn ddiweddar.

Roedd llythyr y Gweinidog hefyd yn amlinellu'r mathau o gymorth a ddarperir gan bartneriaid allanol Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan y Gwasanaeth Cyngori ar Fewnfudo Dinasyddion yr UE yng Nghymru.

Nodi bylchau yn y gwasanaeth

Amlinellodd y Gweinidog sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allanol a llywodraethau eraill i fonitro pryderon neu faterion parhaus.

Eglurodd hefyd fod swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn mynychu cyfarfodydd bob pythefnos gyda Llywodraeth y DU i drafod datblygiadau Cynllun Preswyllo'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, ymdrechion cyfathrebu parhaus ac i godi unrhyw bryderon ac ymholiadau.